**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C** **Cyfarfod Rhif 409**
**13 Gorffennaf, 2017, S4C, Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) |
| **Staff S4C:** | Ian Jones | (Prif Weithredwr) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 7 & 15 |
| | Angharad Evans | (Pennaeth Cyfreithiol a Busnes) – eitem 7 |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 8 |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategol a Pholisi) – eitem 7 |
| | David Bryant | (Pennaeth Datblygu Masnachol) – eitem 14 |
| **Hefyd yn bresennol:** | Carol Bell | (Cadeirydd Bwrdd Masnachol S4C) – eitem 14 |
| **Ymddiheuriadau:** | Guto Harri | (Aelod o'r Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 408, a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 408 (a gynhaliwyd ar 08.06.17)

**Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod fis Mehefin.**

3. **Materion yn Codi**

3.1 **Penodiadau Aelodau newydd i'r Awdurdod**

Nodwyd elfen o rwystredigaeth parthed arafwch y broses o benodi aelodau newydd i'r Awdurdod. Mae swyddogion DCMS yn ymwybodol iawn o'r risgiau y mae peidio penodi aelodau'n eu creu i'r Awdurdod. Mae'r Cadeirydd a PW wedi

nodi'r risgiau ar sawl achlysur ac wedi nodi'r angen i symud ymlaen gyda'r broses cyn diwedd yr adolygiad.

Roedd nifer o ddyddiadau ers fis Rhagfyr 2016 wedi eu gohirio oherwydd dyddiaduron aelodau'r panel penodi, ac roedd hyn wedi arwain at y sefyllfa bresennol.

Nodwyd pwysigrwydd sicrhau rhagor o aelodau i'r Awdurdod cyn gynted â phosibl. Penderfynwyd y byddai PW yn parhau i drafod y mater gyda DCMS gan geisio dyddiadau newydd ar gyfer hysbysebu'r ymgyrch ac y byddai OE yn trafod y mater gyda Sue Owen.

3.2 **Ofcom**

Roedd sgyrsiau wedi eu cynnal rhwng swyddogion S4C ac Ofcom.

Awgrymwyd y dylid ystyried sut i egluro'r sefyllfa bresennol i randdeiliaid, sef fod Ofcom yn rheoleiddio cynnwys S4C, a bod dyletswydd ar S4C i gydymffurfio gyda gofynion Cod Darlledu Ofcom. Awgrymwyd y gellid ystyried sut i ffurfioli'r trefniant rhwng Ofcom ac S4C, a nodwyd fod S4C wedi cynnig ffurfioli'r trefniant yn y gorffennol, ond nad oedd Ofcom yn awyddus i wneud bryd hynny.

Penderfynwyd y dylid parhau i drafod perthynas S4C gydag Ofcom gyda swyddogion a chynrychiolwyr Ofcom yng Nghymru.

3.3 **Cyfarfod y Cadeirydd a Syr David Clementi**

Nodwyd fod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Sir David Clementi, HJ a PW ddydd Llun, 17eg o Orffennaf. Prif fwriad y cyfarfod fydd trafod cytundeb partneriaeth newydd gyda'r BBC.

Mae'r trafodaethau'n parhau gyda swyddogion y BBC yn Llundain, ac er fod penawdau natur y trefniant newydd wedi'u cytuno, mae dal angen cytuno ar fanylder y darpariaethau cytundebol. Roedd trafodaethau hefyd yn parhau parthed y dull newydd o gyflwyno atebolrwydd ariannol i Fwrdd y BBC

3.4 **Cais am adolygiad mewnol cais rhyddid gwybodaeth**

Rhoddwyd diweddariad ar y cais am adolygiad mewnol.

Penderfynwyd trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod dros y ffôn o'r Pwyllgor Cwynion.

3.5 **Yr Adroddiad Blynyddol**

Nodwyd y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei osod o flaen y Senedd ddydd Mawrth 18 Gorffennaf ac yna'i gyhoeddi ddydd Mercher.

3.6 **Gwifren Gwylwyr**

Mae'r nifer o gysylltiadau â Gwifren Gwylwyr yn gostwng. Nodwyd mai lleihad yn y negeseuon Trydar sy'n gyfrifol am y gostyngiad. Roedd hyn oherwydd lleihad yn nifer y gwylwyr yn holi sut i dderbyn sylwebaeth Saesneg erbyn hyn.

4. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**
Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Adolygiad**

Nodwyd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns yn hyderus y byddai'r Adolygiad yn digwydd yn fuan.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am sut i gyflwyno achos ariannol S4C.]

5.2 **Cyllideb/Datganiad Ariannol y Llywodraeth yn yr Hydref.**

Penderfynwyd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno achos ariannol S4C tra bydd DCMS a'r Llywodraeth yn ystyried cyllideb yr adran.

5.3 **Cyfarfod gyda'r Arglwyddi Cymreig**

Cyfeiriwyd at gyfarfod gyda'r Arglwyddi Cymreig a nodwyd ei fod yn gyfle i ail-sefydlu perthynas ar ôl etholiad cyffredinol. Holwyd yn y cyfarfod pam fod S4C o'r farn nad oedd modd cyflawni nifer o'r cynlluniau yn Gwthio'r Ffiniau ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylid ceisio ffyrdd ymarferol i wireddu'r weledigaeth heb yr angen am ddeddfwriaeth gynradd. Esboniwyd safbwynt S4C na fyddai angen deddfwriaeth gynradd er mwyn diweddaru'r cylch gorchwyl.

6. **Rhaglen Waith yr Archwilwyr Mewnol**

Cyflwynodd HHE raglen waith drafft yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2017/18 ac esboniodd fod y rhaglen yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn hytrach na'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth er mwyn caniatáu i'r archwilwyr gychwyn ar eu gwaith cyn gynted â phosibl, heb orfod aros nes cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Cymeradwywyd y Rhaglen waith a phenderfynwyd y byddai SW a PW yn cyfleu hyn i PWC, gan bwysleisio'r angen i ddechrau ar y gwaith cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau fod amser digonol ar gael i gyflawni'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn.

7. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

**Cytundeb arfaethedig y TSA**
Cyflwynodd Elin Morris ddiweddariad ar y trafodaethau parthed cytundeb arfaethedig y TSA gyda'r BBC.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am sefyllfa bresennol negydiad y TSA.]

Penderfynwyd y dylid ceisio cynnal trafodaethau ar lefel uchel gyda'r BBC yn ganolog er mwyn sicrhau fod y cytundeb yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r dyheadau o'r naill ochr a'r llall.

8. **Strategaeth Hyfforddiant**

Cyflwynodd CHR ddiweddariad ar strategaeth hyfforddiant S4C.  Eglurwyd nad oedd unrhyw ddatblygiad mewn perthynas â Skillset o ran cais ariannu WEFO. Roedd Cyfle bellach wedi dirwyn i ben, a Skillset ddim bellach yn gweithredu i'r un graddau yng Nghymru.

Esboniwyd fod y sector ac S4C wedi bod yn trefnu cyrsiau hanfodol megis gwarchod plant a chydymffurfiaeth. Bellach mae TAC wedi cyflwyno cynnig ar gyfer cymryd yr awenau o ran trefnu hyfforddiant i'r sector.

Roedd Luned Whelan wedi'i phenodi'n rheolwr TAC, gyda'r dasg o wireddu'r strategaeth hyfforddiant.

Nododd IHJ fod S4C yn arfer gwario oddeutu £450k ar hyfforddiant, ond bellach yn gwario oddeutu £100k. Holwyd a oedd arian ar gael o ffynonellau eraill ar gyfer hyfforddiant. Esboniwyd fod TAC yn bwriadu cyfrannu cyllid ar gyfer hyfforddi, gyda'r cwmnïau hefyd yn talu'n uniongyrchol am gyrsiau. Bydd cwmnïau sy'n aelodau o TAC yn derbyn yr hyfforddiant am bris gostyngol. Credai IHJ y gellid fod modd gwneud cais am arian o Ewrop ac arian o gronfeydd eraill hefyd.

Esboniwyd fod S4C yn talu cyfraniad blynyddol i TAC ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys gwaith negydu cytundebau undebol.

Nodwyd elfen o bryder fod llawer llai o hyfforddiant yn digwydd o fewn y sector erbyn hyn, a bod S4C wedi bod yn datblygu polisi newydd ers sawl blwyddyn bellach.

Holwyd a oedd AR a'r Adran Gynnwys wedi rhoi mewnbwn i'r anghenion hyfforddi. Esboniodd AR fod yr adran yn awyddus iawn i sicrhau fod hyfforddiant addas ar gyfer datblygu sgiliau creadigol a chrefft yn cael eu cynnig, a'i bod yn bwriadu trefnu cyfres o ddosbarthiadau meistr.

Awgrymwyd y gellid ystyried datblygu ymhellach gynlluniau ar gyfer cyflogi prentisiaid o fewn S4C a'r cwmnïau cynhyrchu.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno diweddariad i'r Awdurdod ym mis Tachwedd

9. **Cytundeb Am Brydles Yr Egin**

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar y Cytundeb Am Brydles yr Egin gan EM.]

Penderfynwyd cymeradwyo'r darpariaethau a gyflwynwyd, gan awdurdodi HJ ac IHJ i gymeradwyo'r cytundebau terfynol, yn amodol ar unrhyw newidiadau o sylwedd i dderbyn cymeradwyaeth yr Awdurdod drwy gyfrwng e-bost.

10. **Diweddariad Archifo**

Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar y broses Archifo.

Nodwyd fod y broses i ddigideiddio archifau S4C ar waith, gyda thua 20% o'r gwaith wedi'i gwblhau.

Mae'r defnydd o brentisiaid yn y tîm wedi bod yn llwyddiannus gyda'r 3 prentis yn ennill profiad o ddigideiddio, archifo, trin ffeiliau a rheoli ansawdd.
Mae'r 3 phrentis yn dymuno parhau â'r prosiect unwaith y bydd y cyfnod hyfforddi wedi gorffen ac mae'r goruchwyliwr archifau yn awyddus i sicrhau hyn.

Yng nghyd-destun cytundeb y TSA, nodwyd fod angen sicrhau bod mynediad at Archif Ddigidol S4C trwy BSM yn bosibl yn y dyfodol er mwyn sicrhau na fydd S4C yn colli'r holl metadata am raglenni S4C o fewn y system. Nodwyd fod S4C

yn aros am gynnig gan y BBC ynglŷn â defnyddio BSM i gael mynediad i gynnwys S4C.

**Partneriaeth Archif gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a'r BBC**

Nodwyd y bu cysylltiad rhwng S4C â Llyfrgell Genedlaethol Cymru sawl blwyddyn yn ôl i drafod y cysyniad o bartneriaeth archif. Ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe gyhoeddodd y Llyfrgell bartneriaeth archif gyda'r BBC, ond nid S4C. Nodwyd fod swyddogion wedi ail gysylltu gyda'r Llyfrgell i bwysleisio ein diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth â hwy.

Penderfynwyd y dylid cysylltu eto gyda'r Llyfrgell i drafod opsiynau ar gyfer cais arian loteri HLF newydd ar gyfer digideiddio a churadu archif S4C.

11. **Gwerthu'r Stâd yn Llanisien**

Adroddodd IHJ fod S4C wedi cyflwyno cais 'pre-app' i Gyngor Caerdydd. Bwriedir cynnal cyfarfod gyda swyddogion a chynghorwyr lleol i drafod y cais.

12. **Pwerau Benthyg a benthyciad DCMS**

Nodwyd fod angen ceisio rhagor o wybodaeth parthed trefniadau'r benthyciad oddi wrth DCMS.

13. **Adolygiad y Strategaeth Cynnwys**

Cyflwynodd AR ddiweddariad ar y Strategaeth Cynnwys.

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd at y bwriad i amrywio natur y gynulleidfa graidd, at elfennau'r strategaeth ac at y rhestr siopa o ofynion y gwasanaeth.]
Diolchwyd i AR am y diweddariad.

Nodwyd y bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Cynnwys ystyried sut i barhau i fonitro ac asesu perfformiad y strategaeth newydd.

14. **Diweddariad ar waith y Bwrdd Masnachol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd CB, EM a DB ddiweddariad ar y strategaeth fasnachol yn dilyn cynnal diwrnod i ffwrdd ddoe i'r Bwrdd Masnachol er mwyn ystyried y strategaeth, diben y Gronfa Fasnachol a pha fath o weithgareddau sy'n addas iddynt.]

**MATERION CHWARTEROL**

15. **Adroddiad Ariannol Chwarter 1**

Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol Chwarter 1, 2017-18. Cyfeiriwyd at lefel gorbenion y flwyddyn hyd yma a nodwyd fod y ganran yn ymddangos yn uwch o ganlyniad i'r ffaith fod cyfanswm incwm S4C yn disgyn, ond bod cost gorbenion yn parhau'n sefydlog. Nid oedd cost gorbenion wedi codi yn ystod y cyfnod.

16. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd HJ grynodeb o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 29 Mehefin pan gafwyd cyfle i ystyried Adroddiad Dadansoddi'r

chwarter. Nodwyd fod cyfraniad chwaraeon i'r amserlen yn parhau'n bwysig iawn.]

17. **Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd yn benodol at ddarlledu o wyliau Cymru, cyfres Mynyddoedd y Byd a slot darlledu Pobol y Cwm.]

18. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

19. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn gan yr Adran Gyfathrebu oedd angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

20. **Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017–18**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith yr Awdurdod 2017-18 er gwybodaeth, a nodwyd fod angen ystyried newid dyddiadau'r Awdurdod ar gyfer gweddill eleni ac ar gyfer 2018, gan fod rhai aelodau wedi newid patrwm gwaith arferol ac yn methu mynychu'r dyddiadau gwreiddiol ar gyfer yr Awdurdod.

21. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.